# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-01-08)

**SLC87**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**O dan Reol Sefydlog 15.2, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.**

**Teitl: The Export and Movement Restrictions (Foot and Mouth Disease) (No 2) (Wales) Regulations 2007**

-yn gweithredu yng Nghymru Benderfyniad y Comisiwn a fabwysiadwyd ar 5 Rhagfyr sy'n diwygio ymhellach Benderfyniadau'r Comisiwn 2007/746/EC, 2007/709/EC, a 2007/554/EC. Prif effaith y Rheoliadau fydd ehangu'r Ardal Allforio sy'n rhydd o Glwy'r Traed a'r Genau a llacio rhai o'r cyfyngiadau ar symud anifeiliaid a all fod yn dioddef o Glwy'r Traed a'r Genau a chynnyrch yr anifeiliaid hynny. Gwnaed y Rheoliadau a daethant i rym ar 5 Rhagfyr 2007 ar yr amseroedd a nodir yn y Rheoliadau. Bydd Rheoliadau 5 i 9 (sy'n ymwneud ag allforio cig, cynhyrchion cig a llaeth) a Rheoliadau 11 i 14 (sy'n ymwneud ag allforio crwyn, cynhyrchion anifeiliaid, esemptiadau ac arnodi dogfennau) yn peidio â bod yn effeithiol ar 15 Rhagfyr 2007; bydd gweddill y Rheoliadau'n peidio â bod yn effeithiol ar 31 Rhagfyr 2007. Caiff The Export and Movement Restrictions (Foot and Mouth Disease) (Wales) Regulations 2007 eu dirymu. **Gweithdrefn: Negyddol**

**Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn am y rhesymau sydd wedi'u gosod allan yn Rheol Sefydlog 15.2(ix) (nad yw wedi'i wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg).**

Dywedwyd wrth y Llywydd fod y Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi penderfynu na fyddai'n ymarferol gwneud y Rheoliadau'n ddwyieithog o fewn yr amser a oedd ar gael oherwydd eu hyd a'r angen i'w cyflwyno yng Nghymru ar unwaith, ond y byddent yn cael eu cyfieithu maes o law.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**Rhagfyr 2007**